Senedd Elections'26

Fully funded public services fit for future generations

The public services UNISON members provide allow people to live, learn and work in a clean and healthy environment and enable them to thrive whatever their social class, race, gender, sexuality, disability, age, language, nationality or belief.

UNISON members make Wales more equal, prosperous, cohesive, and resilient in the face of climate change. They ensure we are globally responsible and our Welsh language and culture is vibrant.

UNISON members therefore expect to be valued and respected by Welsh Government, fairly paid with good pensions, and their services delivered in house, free of profit and for the public good. They want a Welsh Government that strives to make Wales a more equal society, including fully implementing the Anti-Racist Wales action plan.

Workers with a voice in the future of every workplace

UNISON members welcomed the Well-being of Future Generations Act and the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act as they will ensure sustainable procurement and protect fair work. UNISON members expect the Social Partnership Council and the Future Public Service Workforce Forum to continue under the next Welsh Government, and believe that social partnership should be implemented in every workplace in every public body in Wales. Social partnership must extend to schools.

UNISON members know how to use fairer funding for Wales to improve public services. They want to be directly involved in creating better services alongside the people they support, and more power to shape and control the technology they use rather than have technology used to control or replace them.

They want to learn and develop, with more skills and more opportunities to progress in their careers. They need the groundbreaking Wales Union Learning Fund (WULF) to grow so they can build their confidence and have a voice in change at work.

Fair funding for Wales

Despite 26 years of devolution, Wales is still one of the poorest parts of the UK and our public services are struggling. Improving livelihoods through social partnership can only happen where sufficient resources are made available.

UNISON members want a Welsh Government to demand greater devolution in sectors like probation and fairer funding for Wales so they can make the improvements that we all want to see in areas like health, education, social care and the natural environment.

They believe Wales deserves a Welsh Government that is not held back by the application of the Barnett Formula, limited borrowing powers and lack of control of resources like the Crown Estate.

UNISON is asking incoming Senedd members:

- Will you strengthen and embed social partnership inside every public service, putting the voices of workers at the centre of workplace change?
- Will you ensure that public services are delivered in house by well paid workers and focussed on the well-being and resilience of future generations?
- Will you work with governments across the UK to secure greater devolved power and fairer funding for future generations in Wales?
- Will you commit to continuing and growing the Wales Union Learning Fund?

UNISON Cymru

Gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hariannu'n llawn sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus y mae aelodau UNISON yn eu darparu'n caniatáu i bobl fyw, dysgu a gweithio mewn amgylchedd glân ac iach ac yn eu galluogi i ffynnu beth bynnag fo'u dosbarth cymdeithasol, hil, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, oedran, iaith, cenedligrwydd neu gred.

Mae aelodau UNISON yn gwneud Cymru'n fwy cyfartal, ffyniannus, cydlynol a gwydn yn wyneb newid hinsawdd. Maen nhw'n sicrhau ein bod ni'n gyfrifol yn fyd-eang a bod yr iaith Gymraeg a'n diwylliant yn ffynnu.

O'r herwydd, mae aelodau UNISON yn disgwyl cael eu gwerthfawrogi a'u parchu gan Lywodraeth Cymru, cael eu talu'n deg a derbyn pensiynau teilwng, a'u gwasanaethau'n cael eu darparu'n fewnol, heb elw ac er lles y cyhoedd. Maen nhw eisiau llywodraeth yng Nghymru sy'n ymdrechu i wneud Cymru'n gymdeithas fwy cyfartal, gan gynnwys gweithredu cynllun Gwrth-Hiliaeth Cymru yn llawn.

Gweithwyr sydd â llais yn nyfodol pob gweithle
Croesawodd aelodau UNISON Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) gan y byddant yn sicrhau caffael cynaliadwy ac yn amddiffyn gwaith teg. Mae aelodau UNISON yn disgwyl i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a Fforwm Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus y Dyfodol barhau o dan Lywodraeth nesaf Cymru, ac yn credu y dylid gweithredu partneriaeth gymdeithasol ym mhob gweithle ym mhob corff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i bartneriaeth gymdeithasol ymestyn i ysgolion.

Mae aelodau UNISON yn gwybod sut i ddefnyddio cyllido tecach ar gyfer Cymru i wella gwasanaethau cyhoeddus. Maen nhw eisiau bod yn rhan uniongyrchol o greu gwasanaethau gwell ochr-yn-ochr â'r bobl maen nhw'n cynnig cymorth iddyn nhw, a mwy o rym i lunio a rheoli'r dechnoleg maen nhw'n ei defnyddio yn hytrach na bod technoleg yn cael ei defnyddio i'w rheoli neu eu disodli.

Maen nhw eisiau dysgu a datblygu, gyda mwy o sgiliau a mwy o gyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae angen i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) dyfu er mwyn iddyn nhw allu meithrin eu hyder a chael llais mewn newid yn y gwaith.

Cyllido teg i Gymru
Er gwaethaf 26 mlynedd o ddatganoli, mae Cymru'n dal i fod yn un o ranbarthau tlotaf y DU ac mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Dim ond lle mae digon o adnoddau ar gael y gellir gwella bywoliaeth trwy bartneriaeth gymdeithasol.

Mae aelodau UNISON eisiau i Lywodraeth Cymru fynnu mwy o ddatganoli mewn sectorau fel y gwasanaeth prawf, yn ogystal â chyllid tecach i Gymru fel y gallant wneud y gwelliannau yr ydym i gyd am eu gweld mewn meysydd fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r amgylchedd naturiol.
Maen nhw'n credu bod Cymru'n haeddu Llywodraeth nad yw'n cael ei rhwystro gan gyfyngiadau Fformiwla Barnett, pwerau benthyca cyfyngedig a diffyg rheolaeth dros adnoddau fel Ystâd y Goron.

Mae UNISON yn gofyn y canlynol i Aelodau newydd-etholedig Senedd Cymru:

- A wnewch chi gryfhau ac ymgorffori partneriaeth gymdeithasol ym mhob gwasanaeth cyhoeddus, gan osod lleisiau gweithwyr wrth wraidd newid yn y gweithle?
- A wnewch chi sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n fewnol gan weithwyr sy'n cael cyflog da ac sy'n canolbwyntio ar lesiant a gwydnwch cenedlaethau'r dyfodol?
- A wnewch chi weithio gyda llywodraethau ledled y DU i sicrhau mwy o bŵer datganoledig a chyllido tecach i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru?
- A wnewch chi ymrwymo i barhau a thyfu Cronfa Ddysgu Undebau Cymru?